Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Vyrnwy Nursing Home**

**Vyrnwy Nursing Home**
**Llansantffraid**
**SY22 6AU**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

16/02/2023

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Vyrnwy Nursing Home

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Sure Care (UK) Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 39 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 6.12.21 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'n ymddangos bod pobl yn derbyn gofal da yng nghartref nyrsio Vyrnwy. Maent yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Mae gan y staff berthynas gadarnhaol gyda'r unigolion sy'n byw yn y cartref a'u teuluoedd/cynrychiolwyr. Maent yn deall anghenion y bobl yn eu gofal. Mae gweithgareddau ar gael i'r bobl ymuno ynddynt os dymunant.

Mae cynlluniau gofal personol ac asesiadau risg mewn lle i staff eu dilyn. Mae'r gwasanaeth yn symud o gofnodion papur i gofnodion electronig. Mae angen rhagor o waith i sicrhau bod y rhain yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn adlewyrchu’r rhan y mae'r bobl yn ei chwarae wrth gynllunio ac adolygu eu hanghenion gofal a chymorth. Mae'r broses recriwtio yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel. Caiff y staff gefnogaeth dda a chynigir hyfforddiant rheolaidd iddynt.

Ceir rhaglen barhaus o ailaddurno i wella'r cartref. Fodd bynnag, canfuom rai mannau, yn enwedig ystafelloedd ymolchi a thoiledau, a allai fod yn broblem rheoli ac atal heintiau i bobl. Cadarnhaodd y darparwr fod hwn yn cael sylw.

Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Cynhelir adolygiadau monitro ansawdd yn rheolaidd. Fodd bynnag, er bod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref gofal, nid yw'r ymweliadau hyn mor aml ag y dylent fod.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Cânt gefnogaeth i wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae gwybodaeth ar gael yn y datganiad o ddiben a'r canllaw fel bod pobl yn gwybod beth y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae'r dogfennau hyn ar gael yn Gymraeg neu Saesneg. Gall y bobl roi eu barn ar y gwasanaeth mewn amrywiol ffyrdd gan gynnwys cyfarfodydd, cwblhau arolygon, trafodaeth gyda'r staff a siarad â'r unigolyn cyfrifol pan fyddant yn ymweld. Mae pobl yn dweud wrthym y gallant fynd at y rheolwr neu'r staff gofal os oes ganddynt unrhyw bryderon ac yn teimlo'n hyderus y bydd rhywun yn gwrando arnynt hefyd. Mae'r staff yn cael cynnig dosbarthiadau Cymraeg fel y gallant gyfathrebu â phobl yn Gymraeg os byddant yn dymuno.

Mae lles corfforol a meddyliol pobl yn cael ei hybu gan staff gofal sy'n garedig, yn barchus ac yn adnabod y bobl yn dda. Caiff ymwelwyr eu croesawu i'r cartref. Trefnir digwyddiadau teuluol i alluogi pobl i dreulio amser gyda phobl sy'n bwysig iddynt. Mae gweithgareddau ar gael naill ai mewn grwpiau neu'n unigol yn dibynnu ar hoffterau personol y bobl. Mae cynlluniau personol yn fanwl fel bod y staff yn gwybod sut i gefnogi'r bobl. Gwneir atgyfeiriadau at weithwyr iechyd proffesiynol mewn modd amserol pan fo angen.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Caiff y bobl eu cefnogi i aros mor ddiogel â phosibl. Dim ond personél awdurdodedig sy'n cael mynediad i'r cartref. Mae'r staff yn gwybod y broses i'w dilyn os byddant yn teimlo bod lles unigolyn yn cael ei beryglu. Cânt hyfforddiant a mynediad at bolisïau a gweithdrefnau i arwain eu harfer. Gwneir cais am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid amdanynt pan fo angen er mwyn diogelu hawliau pobl. Mae asesiadau risg yn eu lle pan gaiff risg i berson ei nodi. Mae'r rheolwr yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r gwasanaeth fel y gellir nodi unrhyw faterion a mynd i'r afael â hwy yn gyflym.

Mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn byw mewn llety sy'n addas i'w hanghenion. Mae'r arwyddion o gwmpas y cartref yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae offer yn ei le ar gyfer y bobl sydd ei angen ac yn cael ei wirio'n rheolaidd. Mae cynllun ar waith ar gyfer adnewyddu ac ailaddurno'r cartref, ond gwelsom loriau yn enwedig yn yr ystafelloedd ymolchi a'r toiledau y mae angen eu hadnewyddu a'r ystafelloedd wedi'u hailaddurno. Mae'r ardal awyr agored yn hygyrch i bobl a chaiff ei ddefnyddio'n rheolaidd.

## Gofal a Chymorth

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yng Nghartref Nyrsio Vyrnwy. Yn ystod ein hymweliad, roedd y bobl yn treulio amser yn y mannau cymunedol neu yn eu hystafelloedd gwely. Dywedodd un person wrthym ei fod yn mwynhau bod allan yn yr ardd a'i fod wedi bod yn tacluso y tu allan yn ddiweddar. Mae rhaglen amrywiol o weithgareddau wedi'u cynllunio i'r bobl ymuno â nhw os dymunant. Ar ddiwrnod ein hymweliad, roedd y staff wedi trefnu pryd o fwyd San Ffolant ac wedi gwahodd aelodau o'r teulu. Roedd yr ystafell fwyta wedi'i haddurno, ac roedd gan bob gwestai gerdyn San Ffolant wedi'i wneud â llaw, siocledi a rhosyn. Mwynhaodd pawb yr achlysur a dywedodd un person fod y staff wedi "*excelled themselves*." Roedd perthnasau yn canmol y staff, gan ddweud eu bod yn "*excellent"* a "*you can't fault them*."

Mae'r bobl yn derbyn y gofal cywir pan fydd ei angen arnynt. Ar adeg ein hymweliad, roedd y lefelau staffio yn dda, a oedd yn golygu bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir pan oedd eu hangen arnynt. Roedd clychau galw yn cael eu gosod wrth ochr y bobl sydd eu hangen ac yn cael eu hateb yn gyflym ar y cyfan pan ganodd y bobl am gymorth. Roedd cymorth i'r bobl yr oedd angen cymorth arnynt i fwyta ac yfed yn cael ei roi mewn ffordd sensitif gan sicrhau bod pobl yn cael y profiad bwyd gorau posibl. Caiff y tîm staff parhaol ei ategu gan staff asiantaeth; fodd bynnag, mae'r gweithwyr hyn yn gyfarwydd â'r cartref ac yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r bobl a/neu eu teulu/cynrychiolwyr yn ymwneud â phob agwedd ar symud i'r cartref gofal o'u hasesiad i ddatblygu eu cynlluniau personol. Mae hoffterau a dewisiadau unigolion yn cael eu cofnodi fel bod y staff yn gwybod sut maent am gael eu cefnogi. Mae'r cofnodion papur a welwyd yn cadarnhau hyn. Mae'r darparwr yn y broses o symud o gofnodion gofal papur i gofnodion electronig. Roedd y cofnodion a welsom yn fanwl ac yn cynnwys asesiadau risg sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd. Fodd bynnag, roedd yn anodd gweld pwy oedd yn ymwneud â'r broses asesu a chynllun gofal ar y cofnodion electronig. Roedd diffyg gwybodaeth am ddewisiadau pobl a'u canlyniadau personol yn y rhain. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr. Maent yn cydnabod yr angen i sicrhau bod cofnodion yn adlewyrchu dewisiadau personol y bobl ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Caiff mwy o sylw ei roi i hyn wrth i staff ddod i arfer mwy â'r system newydd. Cynhelir adolygiadau o'r cynlluniau personol yn rheolaidd. Mae dogfennau yn dangos hyn ac mae'r bobl wedi cadarnhau.

Caiff y bobl eu cefnogi i reoli anghenion eu hiechyd corfforol a meddyliol. Mae gan y bobl fynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fydd ei angen arnynt. Mae prosesau ar waith i reoli meddyginiaeth sydd bellach yn system electronig. Mae cofnodion yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant, a bod eu gallu i reoli meddyginiaeth yn cael ei asesu. Mae'r cyfleusterau storio yn briodol.

Caiff y bobl eu cadw mor ddiogel ag y gallant fod. Mae asesiadau risg yn eu lle ac maent yn fanwl i staff eu dilyn. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng, yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen os oes rhaid i bobl adael yr adeilad. Caiff y staff hyfforddiant fel bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddiwallu anghenion y bobl. Mae prosesau ar waith i sicrhau bod unrhyw gyfarpar sydd ei angen i gefnogi'r bobl yn cael ei gynnal a'i gadw.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae eu hystafelloedd wedi'u personoli gydag eitemau sy'n bwysig iddynt. Dywedodd y bobl wrthym y gallant ddewis ble i dreulio eu hamser yn ystod y dydd. Gwelsom y bobl yn cyfarfod ag ymwelwyr yn yr ystafelloedd cymunedol neu ym mhreifatrwydd eu hystafelloedd gwely. Ceir rhaglen barhaus o ailaddurno i wella'r cartref. Mae'r lolfa, rhai coridorau ac ystafelloedd gwely yn cael eu peintio a rhai lloriau newydd yn cael eu gosod mewn rhai rhannau o'r cartref. Fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i loriau ac addurniadau mewn ystafelloedd ymolchi a thoiledau. Mae rhai lloriau'n cael eu rhwygo gyda rhai ddim yn cwrdd ag ymylon yr ystafell gan achosi problem bosibl o ran rheoli heintiau. Mae'r rheolwr yn ymwybodol o hyn a dywedodd wrthym y bydd yn ceisio blaenoriaethu'r meysydd hyn. Yn dilyn ein hymweliad, cadarnhaodd y rheolwr fod rhai o'r materion hyn wedi cael sylw a bod cynlluniau i fynd i'r afael ag eraill.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gan y bobl fynediad i ofod awyr agored sy'n ddiogel iddynt ei ddefnyddio. Dywedasant eu bod yn mwynhau'r lle hwn i arddio neu i fwynhau cyfarfod â ffrindiau a theulu. Dywedodd y rheolwr bod cynlluniau ar y gweill i ymestyn y patio am ei fod yn boblogaidd iawn gyda phobl ac ymwelwyr pan fo'r tywydd yn braf.

Mae mesurau iechyd a diogelwch ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae offer gan gynnwys lifftiau teithwyr, teclynnau codi ac offer diogelwch tân i gyd yn cael eu gwirio'n rheolaidd gan asiantaethau allanol. Cynhelir gwiriadau amlach gan y swyddog cynnal a chadw. Cofnodir pob siec ar system electronig y gall y tîm rheoli ei gweld a'i harchwilio ar unrhyw adeg.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Mae Cyfarpar Diogelu Personol ar gael i'r staff. Cynhelir archwiliadau rheolaidd. Dywedodd staff domestig wrthym eu bod yn cael hyfforddiant da a bod ganddynt yr holl offer sydd eu hangen arnynt. Roedd y cartref yn lân ac yn daclus yn ystod ein hymweliad; fodd bynnag, dylai archwiliadau o'r amgylchedd wella i wneud yn siŵr eu bod yn nodi unrhyw broblemau posibl o ran rheoli heintiau, gan gynnwys lloriau nad ydynt wedi'u ffitio'n dda a lloriau wedi'u rhwygo.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y gwasanaeth ei reoli a'i oruchwylio'n dda. Mae'r tîm rheoli'n aros yn sefydlog. Mae'r rheolwr yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda iawn ac mae'n teimlo bod yr Unigolyn Cyfrifol yn gwrando ar ei farn. Mae system electronig newydd yn galluogi rheolwyr i gael trosolwg o bob agwedd ar y gwasanaeth. Caiff archwiliadau rheolaidd eu cynnal o bob maes o'r gwasanaeth sy'n golygu y gellir nodi materion a mynd i'r afael â hwy yn gyflym. Mae systemau ar waith i werthuso digwyddiadau a phryderon diogelu ac i edrych ar wersi a ddysgwyd a ffyrdd o wella'r gwasanaeth. Mae’r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau â’r gwasanaeth, ond nid oedd y rhain mor aml ag y dylent fod yn 2022. Cawsom sicrwydd gan yr Unigolyn Cyfrifol y bydd hyn yn cael sylw. Cynhelir adolygiadau o ansawdd y gofal a ddarperir yn y gwasanaeth bob chwe mis. Gofynnir am farn y bobl fel rhan o’r broses hon.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu gan arferion recriwtio da. Cynhelir gwiriadau gofynnol cyn i'r bobl ddechrau gweithio. Cadarnhaodd y rheolwr fod gwiriadau yn ymwneud â gallu ieithyddol y bobl at ddibenion darparu gofal a chymorth i unigolion yn cael eu cynnal fel rhan o’r broses recriwtio ond nad oes tystiolaeth ohonynt yn y dogfennau recriwtio. Cawsom sicrwydd y bydd hyn yn cael sylw. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n fawr gan y rheolwr, a'u bod yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu'n rheolaidd. Cadarnhawyd hyn gan y ddogfennaeth a welwyd. Mae cofnodion hyfforddi staff yn dangos bod staff yn cael yr hyfforddiant cywir i wneud yn siŵr bod ganddynt y sgiliau i ddiwallu anghenion y bobl. Mae tîm staff sefydlog sy'n gwybod am drefn arferol y bobl ac yn cydweithio'n dda fel tîm. Cynhelir cyfarfodydd staff er mwyn i'r bobl allu rhoi eu syniadau ac unrhyw welliannau a fydd o fudd i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 18 | Ni chaiff asesiadau'r darparwr eu hadolygu a'u diwygio yn ôl yr angen. | Cyflawnwyd |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi